

## Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Cyngor Bro Morgannwg 2022 - 2025

### Cyflwyniad

> Ynghylch Cyngor Bro Morgannwg?

> Beth yw cyfranogiad y cyhoedd?

> Pam mae'n bwysig i'r Cyngor?

1.1. Sefydliad sector cyhoeddus yw Cyngor Bro Morgannwg. Mae'r sefydliad yn gwasanaethu trigolion y sir drwy ddarparu cyfoeth o wasanaethau statudol ac anstatudol, yn amrywio o addysg a gofal cymdeithasol, i dai, casgliadau gwastraff a chyfoethogi cymunedau.

Mae Cynllun Corfforaethol 2020-25 y sefydliad, *Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Dyfodol Disgleiriach*, yn nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei bedwar amcan lles:

- Gweithio gyda a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgorffori'r Pum Ffordd o Weithio i sicrhau bod y sefydliad yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy. Cafodd Amcan Lles 1 a'r Pum Ffordd o Weithio eu defnyddio i lywio Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor, sydd hefyd wedi'i harwain gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Drwy ddatblygu'r strategaeth hon yn awr, a bod yn uchelgeisiol yn ein dull gweithredu, rydym yn **edrych i'r hirdymor** wrth ddatblygu strategaeth sy'n barod at y dyfodol ac sy'n gallu addasu ar gyflymder ac i gyfeiriad y byd modern, gan adlewyrchu newidiadau mewn technoleg a ffyrdd o weithio.

Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn amrywio ei ddulliau ymgysylltu, gan ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, cysylltwyr cymunedol ac ymgysylltu wyneb yn wyneb, i **weithredu dull integredig** o ran cyfranogiad y cyhoedd.

Mae ein strategaeth yn ceisio rhoi cyfle i gynifer o randdeiliaid â phosibl gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, gan alluogi pobl i siapio'r hyn a wnawn a sut rydym yn ei wneud. Drwy ystyried barn, gwerthoedd ac anghenion rhanddeiliaid, byddwn yn amlhau i'r eithaf ein cyfraniad i'r gymuned.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfranogiad y cyhoedd yn well wrth gysylltu â sefydliadau'r trydydd sector, partneriaid a chysylltwyr cymunedol, a byddwn yn sicrhau canlyniadau gwell drwy **gydweithio ag eraill**.

Bydd y camau a gynhwysir yn ein strategaeth i gynnwys rhanddeiliaid ac i fod yn dryloyw gyda nhw yn ystod y broses o wneud penderfyniadau, yn sicrhau bod modd **atal** yn gynnar faterion posibl yn y broses o wneud penderfyniadau a datblygu prosiectau.

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd hon yn amlinellu sefyllfa bresennol y Cyngor, yn ogystal â'i nodau byrdymor a hirdymor a sut y bydd y rhain yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r amcanion lles.

1.2. Gall cyfranogiad y cyhoedd fod yn unrhyw broses sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd o ran sut y gwneir penderfyniadau ac sy'n ystyried sut mae'r cyhoedd yn cyfrannu at y broses o wneud y penderfyniadau hynny.

Proses yw cyfranogiad y cyhoedd, nid un digwyddiad. Mae'n cynnwys cyfres o weithgareddau a champau gweithredu dros oes prosiect i hysbysu'r cyhoedd a chael mewnbwn ganddynt. Mae cyfranogiad y cyhoedd yn rhoi cyfle i randdeiliaid (y rheiny sydd â diddordeb neu fudd mewn mater, fel unigolion, grwpiau buddiant, cymunedau) ddylanwadu ar sut y gwneir penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymuned.

1.3. Mae cyfranogiad y cyhoedd yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau gwell canlyniadau i'r Cyngor a rhanddeiliaid.

Pan gaiff ei wneud mewn ffordd ystyrllon, mae cyfranogiad y cyhoedd yn arwain at well dealltwriaeth o ffeithiau, gwerthoedd a safbwyntiau ychwanegol a gafwyd drwy fewnbwn cyhoeddus - a bydd hyn yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ac yn llywio sut mae'r sefydliad yn gweithio.

Mae'r penderfyniadau'n fwy ymarferol a chynaliadwy gan eu bod yn ystyried anghenion a buddiannau'r holl randdeiliaid gan gynnwys poblogaethau agored i niwed/ffiniol, ac mae'r rhanddeiliaid yn deall y canlyniadau'n fwy ac mae'r canlyniadau'n bwysicach iddynt. Mae hyn yn ei dro yn gwella'r berthynas a'r ymddiriedaeth rhwng y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd.

## **Cyfranogiad y cyhoedd**

> Pwy ydym ni'n ceisio eu cyrraedd?

> Beth mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud?

> Beth yw canlyniadau'r Cyngor?

2.1 Mae Cyngor Bro Morgannwg yn dymuno annog yr holl randdeiliaid i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy helpu i benderfynu beth yw pwrpas y penderfyniadau, deall y materion a datblygu atebion mewn ffordd gyd-ddyluniol a chydgyhyrchiol.

Mae rhanddeiliaid y Cyngor yn cynnwys dinasyddion, busnesau, ymwelwyr ac eraill. Mae'r Cyngor am gymryd camau i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, yn enwedig llais grwpiau nas clywir yn aml, a bod pobl ifanc hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes dull sy'n addas i bawb o ymgysylltu ag ystod mor eang o randdeiliaid. Yn rhan o'n hymrwymiad, byddwn yn amrywio ein ffordd o ymgysylltu a chysylltu â gwahanol grwpiau.

2.2 Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi ceisio datblygu'r dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn gyfleus.

Mae hyn yn cynnwys cynnal gweminarau ymgynghori ar Zoom, y gwahoddwyd rhanddeiliaid iddynt i gwrdd a thrafod gyda swyddogion y Cyngor mewn ffordd adeiladol. Dangosodd adborth fod y sesiynau wedi cael croeso cynnes ac y gellid eu datblygu ymhellach.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ehangu ei ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i gynnwys arolygon cyfryngau cymdeithasol ac annog trigolion i adael 'sylwadau' yn mynegi eu barn. Mae data o'r adran arolygon a'r adran sylwadau wedi'i ddefnyddio mewn adroddiadau. Rydym hefyd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymgynghoriadau, ochr yn ochr â fideos pwrpasol i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r materion dan sylw.

Rydym yn dal i ymrwmo i gynnal sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl ac i gyflwyno dogfennau ymgynghori ar-lein.

2.3 Mae'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion lles y Cyngor ac yn dilyn y camau gweithredu a geir yn ymrwymadau Amcan Lles 1 - "Gweithio gyda a thros ein cymunedau."

Canlyniadau ein gwaith cyfranogiad y cyhoedd rydym am eu cyflawni yw:

**Hysbysu** : Rydym am fod yn dryloyw ynghylch sut y gwneir penderfyniadau a rôl rhanddeiliaid yn y broses.

**Ymgysylltu** : Rydym am annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a'i gwneud yn hawdd iddynt wneud felly.

**Adborth** : Rydym am wella'r ffordd rydym yn bwydo'n ôl i rhanddeiliaid, fel eu bod yn deall canlyniad eu cyfranogiad.

Er mwyn sicrhau bod y canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni, mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o gamau gweithredu. Gan adlewyrchu gwerthoedd ein sefydliad o fod yn Uchelgeisiol, yn Agored, Gyda'n Gilydd ac yn Falch, mae ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn adlewyrchu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn dilyn ein dyletswyddau i gydymffurfio ag adran 39 ac adran 40 o'r Ddeddf.

### **Ein gwerthoedd a'n camau gweithredu**

≥ Uchelgeisiol

≥ Agored

≥ Gyda'n Gilydd

≥ Balch

3.1 Rydym am fod yn **uchelgeisiol** o ran sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd, yn meithrin perthnasau ac yn ystyried ffyrdd newydd o gyrraedd ein cymunedau.

Byddwn yn:

**Cam Gweithredu 1:** Datblygu ein sianeli cyfryngau cymdeithasol fel llwyfan i ofyn cwestiynau a rhannu barn a chefnogi ymwybyddiaeth Cyngorwyr o fanteision y cyfryngau cymdeithasol. (LIC 2d, f)

**Cam Gweithredu 2:** Datblygu ein methodoleg ar gyfer rhannu ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau eraill. (LIC 2d, f)

**Cam Gweithredu 3:** Croesawu'r defnydd o drafodaethau digidol, er enghraifft fforymau, Facebook Live a gweminarau. (LIC 2c, d, f)

**Cam Gweithredu 4:** Cwrdd â rhanddeiliaid wyneb yn wyneb yn eu cymunedau a'u grwpiau eu hunain fel y gallwn ddod i'w hadnabod yn well a deall y materion sy'n bwysig iddynt yn well.

3.2 Rydym am fod yn **agored** ac yn dryloyw ynghylch sut rydym yn gwneud penderfyniadau ac yn helpu dinasyddion i ddeall a chyflawni eu rôl yn y broses o wneud penderfyniadau.

Byddwn yn:

**Cam Gweithredu 1:** Rhoi gwybod i bobl am gyfarfodydd y cabinet a sut y gallant gymryd rhan. (LIC 2a, b)

**Cam Gweithredu 2:** Llywio a hyrwyddo rôl y cyhoedd yn ein hymarferion ymgynghori. (LIC 2d)

**Cam Gweithredu 3:** Hyrwyddo gwell dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cyngor o ran materion sy'n effeithio ar drigolion. (LIC 2a)

3.3 Rydym am i drigolion deimlo bod penderfyniadau wedi'u gwneud **gyda'n gilydd**, gan ystyried barn y cyhoedd wrth lunio polisi'r Cyngor.

Byddwn yn:

**Cam Gweithredu 1:** Sefydlu a hyrwyddo'r broses eDdeisebau. (LIC 2c)

**Cam Gweithredu 2:** Nodi a dangos lle mae barn trigolion wedi effeithio ar ganlyniad ymgynghoriad/arolwg.

**Cam Gweithredu 3:** Dod o hyd i ffyrdd o gysylltu â chynghorau tref a chymuned, sefydliadau'r trydydd sector ac arweinwyr cymunedol eraill (cysylltwyr cymunedol) er mwyn cyrraedd mwy o bobl. (LIC 2c)

**Cam Gweithredu 4:** Mabwysiadu dull 'gadael dim llais ar ôl' drwy ddod o hyd i ffyrdd o annog a hwyluso cyfranogiad gan bob grŵp, gan gynnwys y rheiny nas clywir yn aml, drwy bethau fel allgymorth wyneb yn wyneb ac allgymorth sy'n seiliedig ar drafodaeth. (LIC 2c)

3.4 Rydym am fod yn **falch** o'n penderfyniadau, eu rhannu a'u cyflawni.

Byddwn yn:

**Cam Gweithredu 1:** Gwella o ran rhannu'r hyn sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor. (LIC 2a)

**Cam Gweithredu 2:** Gwella'r ffordd rydym yn tynnu sylw at y ffordd y mae pobl wedi ein helpu i wneud penderfyniad.

**Cam Gweithredu 3:** Cynnal ymgyrch i wella dealltwriaeth o'r hyn y mae cynghorwyr yn ei wneud a sut mae'r Cyngor yn gweithredu. Yn rhan o hyn, byddwn yn diweddarau ein tudalennau gwe presennol. (LIC 2a, b)

**Cam Gweithredu 4:** Datblygu cyfres o astudiaethau achos i arddangos lle mae cyfranogiad effeithiol gan y cyhoedd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i randdeiliaid a'r gymuned.

**Cam Gweithredu 5:** Sicrhau bod y broses gyfranogi yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys yr iaith a ddefnyddiwn. Dylwn ni ddefnyddio iaith glir a'i chyfieithu lle bo angen. Mae hefyd yn cynnwys y ffordd rydym yn ymgysylltu, er enghraifft mynd i'r afael ag allgau digidol neu gyfyngiadau teithio.

**Cam Gweithredu 6:** Ymgysylltu â phobl ar eu telerau eu hunain er enghraifft drwy gwrdd â nhw mewn amgylcheddau lle maent yn teimlo'n gyfforddus a rhoi digon o amser i bobl ymateb.

### **Monitro a Chyflawni**

Bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y strategaeth hon bob blwyddyn ac yn cynnwys manylion am y cynnydd a wnaed ac unrhyw heriau yn Adroddiad Hunanasesu Blynyddol y Cyngor i'w gyhoeddi yn yr hydref bob blwyddyn. Bydd hyn yn galluogi i unrhyw feysydd datblygu gael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y flwyddyn sydd i ddod a/neu Gynlluniau Gwasanaeth y Cyngor.

